Y CRIW
Mentrus

Cynradd Uwch

Gweithgaredd 10:
Allwn ni ei werthu?

Amcan Dysgu

- Darparu cyfle i ddisgyblion weithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau a datblygu datrysiadau arloesol.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Creadigedd

- Datrys problemau

Cysylltiadau

- Gweithio gydag eraill

Trefniadaeth

- Cynllunio

Gweithgareddau dysgu

Defnyddiwch **Adnodd 10 – Geiriau Ariannol Allweddol** ar gyfer tasg gydweddu i egluro chwe therm allweddol.

Trafodwch y broses o werthu eu cynnyrch/gwasanaeth gorffenedig gyda'r disgyblion.

Mae'r disgyblion yn archwilio sut i brisio eu cynnyrch a chyfrif costau cynhyrchu a chostau eraill.

Mae'r grwpiau yn cydweithio i wneud penderfyniad cyfunol am bris cynnyrch / gwasanaeth.

Eglurwch y bydd y disgyblion angen system i gadw cyfrif o'u harian pan fydd eu prosiect menter yn cynhyrchu a gwerthu nwyddau neu wasanaeth. Gellir gwahodd cyfrifydd neu gynrychiolydd o'r banc lleol neu undeb credyd i'r ysgol. Os defnyddir banc i ddal y cyfrif, bydd angen i'r disgyblion ddeall cyfriflenni ar gyfer yr adeg pan fyddant yn dechrau masnachu a chronni arian.

Gan ddefnyddio TGCh gofynnwch i'r disgyblion ddyfeisio system gofnodi syml i gofnodi incwm, costau ac elw. Bydd angen iddyn nhw wybod:

- *Faint o arian sydd gennych chi ar gyfer eich prosiect menter?*
- *Faint o arian yr ydych wedi eu gwario (costau).*
- *Faint o arian sydd gennych yn dod i mewn (incwm).*
- *Faint o arian sydd gennych yn y 'banc' (balans).*

Gweithgaredd 10:
Allwn ni ei werthu?

Cynradd Uwch

Canlyniad dysgu

Bydd disgyblion wedi gweithio gyda'i gilydd mewn timau gan gytuno ar gyfrifoldebau a phenderfynu ar ddulliau gwahanol o brisio eu cynnyrch.

Adnoddau sydd eu hangen

- Adnodd 10 – cardiau cydweddu Geiriau Ariannol Allweddol
- TGCh

Cwricwlwm ar gyfer Cymru

Sgiliau Trawsgwricwlaidd

1. Llythrennedd

Siarad

- Eglurder a geirfa
- Diben
- Ymddiddan cydweithredol

Gwrando

- Gwrando ar gyfer ystyr

2. Rhifedd

- Llythrennedd rhifedd

3. Cymhwysedd digidol

- Data a llythrennedd gwybodaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government